# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**SLC(3)-10-09 Paper 6**

## Y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol) – Ystyried yr adroddiad drafft - Papur eglurhaol

### Y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes

### Cyflwyniad

Mae modd i'r Pwyllgor ystyried pwerau a roddwyd i Lywodraeth y Cynulliad i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog a ganlyn -

"Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:-

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol"

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Ionawr 2009, rhoddwyd papur i'r Pwyllgor ar 'Ystyried Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU'. O ganlyniad i'r papur hwn, dewisodd y Pwyllgor ddechrau craffu ar Fesurau Seneddol y DU, gan ddechrau â'r Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes.

### Y cefndir

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 21 Ionawr 2009. Ar sail y cyflwyniad ysgrifenedig a gafwyd gan y Gweinidog, gwahoddwyd Dr Gibbons i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Ar 10 Mawrth 2009, bu Dr Gibbons, Carwyn Jones a'u swyddogion yn bresennol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Yn y cyfarfod dilynol ar 17 Mawrth 2009, bu'r Pwyllgor yn adolygu'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig. Nid oedd hwn wedi bod ar gael i'r Pwyllgor blaen. O ganlyniad i'r gwaith craffu hwn, roedd gan y Pwyllgor gwestiwn arall i Dr Brian Gibbons a Carwyn Jones, ac mae llythyrau wedi'u hanfon. Hyd yma, nid yw'r Pwyllgor wedi cael atebion.

### Yr adroddiad

Mae adroddiad drafft wedi'i atodi, a gwahoddir yr Aelodau i roi sylwadau a chytuno arno.